# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Darpariaethau Cyffredin a Rheolau Darpariaeth Gyffredin y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd etc. (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Dirymu) 2020** |
| **DYDDIAD** | **09 Gorffennaf 2020** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

Rheoliadau Darpariaethau Cyffredin a Rheolau Darpariaeth Gyffredin y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd etc. (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Dirymu) 2020

**Trosolwg Polisi o'r OS**

Bwriad yr OS hwn yw dirymu'r OS sy'n diddymu rheoliadau Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), y Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (ETC) a'r Gronfa Gydlyniant, a gafodd ei osod yn 2019.

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio**

Rheoliadau Darpariaethau Cyffredin a Rheolau Darpariaeth Gyffredin y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd etc. (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019(b)

**Diben y diwygiadau**

Diben y diwygiadau yw dirymu'r Offeryn Statudol, Rheoliadau Darpariaethau Cyffredin a Rheolau Darpariaeth Gyffredin y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd etc. (Diwygio) (Rhif 2) (Ymadael â'r UE) 2019, a osodwyd ym mis Ionawr 2019. Mae angen dirymu'r OS hwn gan iddo gael ei gynllunio ar gyfer ymadael â'r UE heb gytundeb, ac y byddai felly'n diddymu rheoliadau'r UE ar ddiwedd y Cyfnod Pontio ar gyfer Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop a'r Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (sydd, gyda'i gilydd, yn cael eu galw'n Gronfeydd Strwythurol). Byddai hyn yn groes i fwriad a diben y Cytundeb Ymadael fel y'i gweithredir yng nghyfraith y DU, sy'n cynnal rheoliadau'r UE ar gyfer Cronfeydd Strwythurol hyd nes iddynt gael eu cau, ac ar ôl hynny. Mae'r OS, a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n disgrifio effaith pob un o'r

diwygiadau, ar gael yma: https://statutoryinstruments.parliament.uk/timeline/kp6EREZF/SI-2020/

**Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Nid yw'r OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

**Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Nid yw'r OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethdod diangen yn y llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y Deyrnas Unedig sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd. Yn yr achos hwn mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn deddfu ar ein rhan.